## Llenwi'r Ffurflen Bwriad i Gyflwyno [BiG]

- **3 mis** cyn disgwyl cyflwyno, bydd y myfyriwr yn llenwi Rhan A y ffurflen Bwriad i Gyflwyno [BiG] a'i hanfon i'r Adran
- Bydd yr Adran yn llenwi gweddill y manylion ac yn anfon y ffurflen i Ysgol y Graddedigion
- Panel Ysgol y Graddedigion yn adolygu'r ffurflen
- Ysgol y Graddedigion yn gwahodd Arholwr Allanol i arholi'r traethawd ymchwil

## Mudiad Blackboard ar gyfer Cyflwyno Traethawd Ymchwil cyn arholiad Llafar

- Ar ôl cyflwyno'r ffurflen, bydd angen i'r myfyriwr weld a yw'n gallu agor Mudiad Blackboard ar gyfer Cyflwyno Traethawd Ymchwil cyn yr arholiad Llafar (a chysylltu ag ysgol.graddedigion@aber.ac.uk os oes trafferthion)
- Pan fyddwch yn barod i gyflwyno, gwnewch yn sicr bod y ffurflenni cywir wedi'u rhwymo yn y traethawd a'u hychwanegu ar BB.
- Myfyriwr i gyflwyno'r traethawd ymchwil i'r safle priodol ar BB.
- Ysgol y Graddedigion yn anfon y traethawd at yr arholwr

## ARHOLIAD LLAFAR *VIVA*

- Yr Adran yn trefnu arholiad llafar – fel arfer o fewn 12 wythnos ar ôl anfon y traethawd at yr arholwr
- Cynhelir yr arholiad – wyneb yn wyneb fel arfer. (Gellir cynnal yr arholiad ar-lein gyda chymeradwyaeth Pennaeth Ysgol y Graddedigion)
- Tîm yr arholiad yn rhoi ffurflen adroddiad interim i'r myfyriwr yn yr arholiad.

## Ar ôl y VIVA - Ailgyflwyno

- Yr Adran yn ysgrifennu at y myfyriwr i nodi'r gwelliannau angenrheidiol.
- Y Gofrestrfa Academaidd yn ysgrifennu'n ffurfiol i roi'r canlyniad a dyddiad cau ailgyflwyno.
- Y drefn yn dechrau eto - ffurflen bwriad i gyflwyno 3 mis cyn cyflwyno
- Yr arholwr yn cael y traethawd a phenderfynu a oes angen ail arholiad llafar

## Ar ôl y Viva - pasio os gwneir cywiriadau

- Bydd yr Adran yn ysgrifennu at y myfyriwr i roi rhestr o gywiriadau a'r dyddiad ar gyfer eu cyflawni.
- Rhaid i'r myfyriwr gyflwyno'r cywiriadau i'r Adran academaidd mewn pryd
- Bydd yr Adran yn anfon y cywiriadau ymlaen at yr arholwr
- Bydd yr arholwr yn cadarnhau bod yr holl gywiriadau wedi'u gwneud

## Cadarnhad Terfynol

- Bydd yr arholwr/arholwyr yn llofnodi'r adroddiad cadarnhau terfynol a'i anfon i'r Adran.
- Bydd yr Adran yn cysylltu â'r myfyriwr i gadarnhau bod y cywiriadau wedi'u derbyn
- Rhaid i'r myfyriwr lwytho'r fersiwn derfynol i safle Cyflwyno Traethawd Hir terfynol BB mewn pryd.
- Bydd y Gofrestrfa Academaidd yn cysylltu â'r myfyriwr ynglŷn â'u canlyniad, y dystysgrif a'r graddio (DS ni all unrhyw un fynd i'r seremoni raddio tan i'r canlyniad ffurfiol gael ei gadarnhau).